



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDDU GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES



South Wales
Police and Crime Commissioner
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
De Cymru



Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru **Cyfarfod Rhithiol** **Dydd Iau 23^{ain} Mehefin 2022**

Cofnodion

Yn bresennol

Jane Hutt ASC	Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (Cadeirydd)
Dafydd Llywelyn	Comisiynydd Heddlu a Throedd, Dyfed Powys (Cyd-gadeirydd)
Mick Antoniw ASC	Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
David TC Davies AS	Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol a Dirprwy Chwip y Llywodraeth
Lynne Neagle ASC	Dirprwy Weinidog, Iechyd Meddwl a Lles
Julie James ASC	Gweinidog Newid Hinsawdd
Richard Lewis	Prif Gwnstabl, Dyfed Powys
Pam Kelly	Prif Gwnstabl, Heddlu Gwent
Jeremy Vaughan	Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru
Richard Debicki	Dirprwy Brif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru
David Thorne	Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Heddlu De Cymru
Jeff Cuthbert	Comisiynydd Heddlu a Throedd, Gwent
Andy Dunbobbin	Comisiynydd Heddlu a Throedd, Gogledd Cymru
Alun Michael	Comisiynydd Heddlu a Throedd, De Cymru
Eleri Thomas	Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throedd, Gwent
Emma Woods	Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throedd, De Cymru
Reg Kilpatrick	Cyfarwyddwr Cyffredinol Ymateb Covid, Llywodraeth Cymru
Jon Drake	Cyfarwyddwr, Uned Atal Trais
Karin Phillips	Dirprwy Gyfarwyddwr, Adran Ddiogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru
Michael Curties	Pennaeth Camdefnydd Sylweddau, Llywodraeth Cymru
Christopher Gittins	Pennaeth Camdefnydd Sylweddau a Pholisi Iechyd Troseddwyr, Llywodraeth Cymru
Jayne Phillips	Tîm Trosedd a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru
Sarah Rhodes	Pennaeth Atal Digartrefedd, Llywodraeth Cymru
Carl Spiller	Uwch Swyddog Atal Digartrefedd
Chris Jennings	Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM
Joanne Hopkins	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Christopher Batchelor	Dirprwy Gyfarwyddwr, Y Swyddfa Gartref
Nicola Davies	Cyfarwyddwr Gwasanaeth Prawf Cymru
Sarah Capstick	Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel CLILC
Naomi Alleyne	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymeithasol a Llety, CLILC
Chris Llewelyn	Prif Weithredwr, CLILC
Carys Morgans	Prif Weithredwr, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throedd, Dyfed Powys
Sian Curley	Prif Weithredwr, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throedd, Gwent
Lee Jones	Prif Weithredwr, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throedd, De Cymru
Stephen Hughes	Prif Weithredwr, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throedd, Gogledd Cymru
Angharad Metcalfe	Pennaeth Strategol Comisiynu, Camdefnydd Sylweddau a Iechyd Meddwl, CCH De Cymru
Paul Morris	Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu
Alun Davies	T/Prif Arolygydd, Uned Gyswllt yr Heddlu
Joanna Huddleston	Swyddog Gweinyddol, Uned Gyswllt yr Heddlu
Sahil Afware	Uwch Ysgrifennydd Preifat, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Ben Bryant	Rhaglen Goresgyn Camdefnyddio Cyffuriau, Y Swyddfa Gartref
<u>Ymddiheuriadau</u>	
Simon Hart AS	Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Carl Foulkes	Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru
Amry Rees	Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD Gogledd Cymru
OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES



South Wales
Police and Crime Commissioner
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
De Cymru



Asim Hafeez

Emma Thomas

James Searle

Leanne Lewis

Tracy Cooper

Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Ymgysylltu a Strategaeth

Rhyngwladol a Domestig, Y Swyddfa Gartref

Pennaeth Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol

Pennaeth y Tîm Trosedd a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru

Y Tîm Trosedd a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru Public

Camau gweithredu yn deillio o'r cyfarfod

Mae Tîm Digartrefedd Llywodraeth Cymru yn ceisio sylwadau gan Blismona yng Nghymru yng nghyswllt y defnydd o Lythyrau Cysur i landlordiaid yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau

Awgrymodd Lynne Neagle AS Cymru y dylid trafod opsiynau yng nghyswllt Datrysiaidau y Tu Allan i'r Llys ar y cyd drwy gynnwys HMPPS a'r Heddlu.

Y Comisiynydd Jeff Cuthbert a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt i gyfeirio at ddigartrefedd yn eu cyfarfodydd rheolaidd

Y Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan i fynd â'r cyfamod gwasanaethau brys i'r Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd a chyflwyno adborth i Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru

1. Croeso a Chyflwyniad y Cadeirydd


Agorodd Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, y cyfarfod a chroesawu aelodau o Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru. Croesawodd Jane Hutt ASC aelodau gweinidogol o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan gyflwyno Mick Antoniow y Cwnsler Cyffredinol a Lynne Neagle, Dirprwy Weiniog, Iechyd Meddwl a Lles yn ogystal â David TC Davies AS yn cynrychioli Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Soniodd hefyd y byddai Julie James AS Cymru, Gweinidog Newid Hinsawdd yn ymuno cyn bo hir. Pwysleisiodd Jane Hutt ASC hefyd mai dyma'r tro olaf y byddai'r Comisiynydd Llywelyn yn mynychu fel arweinydd Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru am y byddai'n trosglwyddo'r awennau i'r Comisiynydd Cuthbert o'r 22^{ain} Medi 2022 a diolchodd iddo am ei gefnogaeth a'i waith yn ystod y misoedd diwethaf. Dywedodd Jane Hutt fod y Prif Gwnstabl Foulkes yn ymddeol ym mis Medi 2022 a dymunodd yn dda iddo a diolch iddo am ei wasanaeth arbennig, yn enwedig fel arweinydd y Prif Gwnstabiad ar sawl achlysur, ac am nad oedd yn bresennol heddiw eglurodd y byddai'n ysgrifennu ato. Llongyfarchodd Jane Hutt y Prif Gwnstabl Kelly hefyd am dderbyn Medal Heddlu'r Frenhines. Nododd hefyd mai dyma Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru cyntaf y Prif Gwnstabl Lewis fel Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys.

2. Sylwadau gan David TC Davies AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol a Dirprwy Chwip y Llywodraeth

Diolchodd David Davies AS i Jane Hutt ASC am y croeso gan ddweud er mai dyma'r tro cyntaf iddo fynychu Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, bu'n gweithio'n agos gyda heddluoedd Cymru yn ystod pandemig Covid-19. Ategodd David Davies AS sylwadau Jane Hutt ASC gan ddweud ei fod wedi ymwneud yn y gorffennol â'r Prif



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER



Gwnstabl Kelly a'i fod yn dymuno pwysleisio bod y fedal yn gwbl haeddiannol. Diolchodd hefyd i'r Comisiynydd Llywelyn.

Ymddiheurodd David Davies AS am na allai Simon Hart AS fod yn bresennol ond dywedodd ei fod yn falch o allu mynychu ar ei ran. Esboniodd ei fod wedi darganfod yn ystod y pandemig Covid-19 fod yna feysydd sydd wedi eu cadw yn ôl megis Plismona a meysydd eraill nas cadwyd yn ôl megis lechyd ond ei bod hi'n bwysig fod y cyfrifoldebau yn y meysydd yma'n gweithio ar y cyd ar bethau fel hyn. Pwysleisiodd David Davies AS fod llawer o faterion plismona sy'n mynd i orgyffwrdd â meysydd polisi sy'n cael eu penderfynu gan Senedd Cymru.

Diolchodd David Davies AS i'r Bwrdd am y cyfle i fynychu gan wahodd cwestiynau am ei fod yn awyddus iawn i gynnig cymorth.


2.1. Sylwadau Mick Antoniw ASC, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Diolchodd Mick Antoniw i'r Bwrdd am y cyfle i fynychu gan egluro mai ei fwriad yw mynychu cymaint o gyfarfodydd Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru â phosibl er mwyn ymwneud â'r gwaith gan gydnabod fod gorgyffwrdd sylweddol â'i rôl ef. Cyfeiriodd Mick Antoniw ASC ymhellach at y ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi papur Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yn ddiweddar sy'n cyfeirio at nifer o agweddau yng nghyswllt cyfiawnder ac estynnodd ei ddiolchgarwch i bawb a gyfrannodd at greu'r papur hwnnw. Dywedodd Mick Antoniw ASC ei fod yn credu nad pwy sy'n rheoli'r broses o ddarparu cyfiawnder sy'n bwysig ond yn hytrach sut mae darparu cyfiawnder yn well. Eglurodd mai'r ffactorau pwysig yw:

- Yr hyn sy'n cael ei weithredu ar y cyd eisoes, am fod llawer iawn o waith yn digwydd eisoes gyda'r Comisiynydd ochr yn ochr â gwasanaethau eraill. Mynegodd Mick Antoniw ASC ei ddiolchgarwch i Jane Hutt ASC am ei gwaith hi yn y maes hwn.
- Pa waith arall y gellir ei gyflawni o safbwynt y modd yr ydym yn cyflwyno'r materion hynny'n well yn ogystal â materion eraill.
- Ystyried y System Gyfiawnder a Datganoli Cyfiawnder yn ogystal ag argymhellion Comisiwn Thomas. Dywedodd Mick Antoniw ASC ei fod yn teimlo fod Datganoli Cyfiawnder bron yn anorfod yn sgil y modd y mae angen i Dai, Addysg ac Ieuenctid a Gwasanaethau Cymdeithasol weithio ar y cyd ac ymgysylltu â Chyfiawnder ac eglurodd ei fod yn gobeithio y gallai rhai aelodau o'r Bwrdd ymgymryd â datblygu'r papur maes o law.

Diolchodd Mick Antoniw ASC i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd am eu gwaith ar y Papur Cyfiawnder gan ddatgan ei fod yn edrych ymlaen at ymgysylltiad pellach o safbwynt hynny.

2.2. Teimlai'r Comisiynydd Michael fod ymwneud y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn beth cadarnhaol gan ymddiried ymlaen llaw yn y Cynllun Cyflwyno



Cyfiawnder. Canmolodd hefyd agwedd gadarnhaol Llywodraeth Cymru at Ddatganoli gan ei fod yn teimlo fod hyn yn rhoi gwir nerth ac yn creu'r ymdeimlad fod Datganoli Cyfiawnder a Phlisma'n anorfod yn y tymor hir.

Dywedodd y Comisiynydd Michael, am nad yw plisma wedi'i ddatganoli, fod gan Brif Gwnstabiail lefel o annibyniaeth gweithredol, yn debyg i'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd fel cynrychiolwyr etholedig, a bod ganddynt hwythau rywfaint o ymreolaeth er nad oes gan rai cydweithwyr eraill o fewn y cyrff Cyfiawnder Troseddol y fath annibyniaeth.

2.3. Ymatebodd David Davies AS i sylwadau'r CHTH Michael gan gynghori nad yw'n fwriad gan Lywodraeth y DU i ddatganoli Cyfiawnder i Gymru.

2.4. Ychwanegodd Jane Hutt ASC ar sail y sylwadau uchod, mor bwysig oedd y ddogfen Cyflwyno Cyfiawnder i Gymru am ei bod yn tanlinellu gwaith pwysig ar y cyd megis Glasbrintiau Cyfiawnder Troseddol a chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaeth Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

3. Materion Allweddol i'w Trafod

3.1. Digartrefedd

Cyflwynodd Jane Hutt ASC y pwnc drwy egluro y bydd y cyflwyniad hwn yn cynnwys tair sleid gyda chyflwyniad gan Naomi Alleyne o CLILC, Carl Spiller o Lywodraeth Cymru a'r Prif Gwnstabl Vaughan o Heddlu De Cymru.

3.1.1. Eglurodd Naomi Alleyne o Gymdeithas Llywodreth Leol Cymru fod y sleidiau wedi'u casglu ynghyd ar y cyd er mwyn cyflwyno heriau ac ystyriaethau sy'n dod i'r amlwg y mae'r Gymdeithas yn awyddus i'w codi gyda Bwrdd Partneriaeth Plisma Cymru o safbwynt gwahanol ond un sy'n cydfynd â hynny. Eglurodd fod y ddarpariaeth llety dros dro wedi newid yn sylweddol yn ystod y pandemig, ar sail yr argyfwng iechyd cyheoddus a'r flaenoriaeth i rwystro lledaeniad yr haint, gyda newidiadau i'r canllawiau statudol er mwyn sicrhau nad oedd neb heb do uwch eu pennau. Pwysleisiodd Naomi fod Awdurdodau Lleol yn gwbl gefnogol i'r dull yma o weithredu ac y byddent yn parhau i'w gefnogi. Eglurodd y bydd newidiadau deddfwriaethol eraill yn digwydd yn ystod cyfnod diweddaraf Llywodraeth Cymru er mwyn ad-drefnu deddfwriaeth digartrefedd.

Serch hynny, eglurodd Naomi i hyn arwain at 7779 o unigolion yn derbyn llety brys dros dro ledled Cymru ddiwedd mis Mawrth 2022. Ychwanegodd ers dechrau'r pandemig fod dros 20,900 o bobl a oedd yn ddigartref cyn hynny wedi'u cefnogi drwy'r trefniant llety brys dros dro. Serch hynny, ceir tuedd gyson o gynyddu'r nifer o bobl sy'n cael mynediad i lety brys dro dro a rhagwelir y bydd yr argyfwng costau byw hefyd yn cael effaith ar y nifer o bobl sy'n gofyn am lety brys dro dro o ganlyniad i fethu â thalu rhent/morgeisi.

Ymhellach, trafododd Naomi fater y bwloch cynyddol rhwng y Lwfans Tai Lleol sydd wedi'i bennu ar sail cost cyfartalog rhent a lefelau rhent ar draws y

sector rhentu preifat. Eglurodd fod y CLILA wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn gofyn am fwy o hyblygrwydd yng nghyswllt y cynnydd yn y Lwfans Tai Lleol am y byddai hynny'n sicrhau mwy o dai fforddiadwy ar gyfer pobl ar lefel leol.

Mynegwyd pryderon hefyd yng nghyswllt Ymddygiad Gwrth-Gymeithasol mewn lleoliadau llety dros dro drwy gydol y pandemig a chafwyd trafodaethau ar lefel leol. O safbwynt y rhai a roddwyd mewn llety dros dro, llwyddodd y gwasanaethau cymorth i gyrraedd pobl i'w hannog a'u cefnogi i geisio mynediad i wasanaethau i'w helpu i fynd i'r afael â'r materion sy'n arwain yn y pen draw at fod yn ddigartref, er enghraifft camddefnyddio sylweddau. Felly, mae Naomi'n awyddus i sicrhau fod pobl yn derbyn cefnogaeth addas yn y man cywir.

Cyfeiriodd Naomi hefyd at bryderon yn ymwneud â'r her o ddarparu 20,000 yn fwy o gartrefi ar gyfer rhentu cymdeithasol sy'n un o ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu. Mae Awdurdodau Lleol yn gefnogol i hyn am fod angen dybryd am fwy o dai ledled Cymru, ond mae heriau yn y cyswllt hwn yn sgil yr oedi o ran datblygu (sgiliau a deunyddiau), yr argyfwng costau byw a'r angen i ddatblygu tai carbon sero.

Eglurodd hefyd fod pryderon am effaith ail gartrefi ar y farchnad dai yn ogystal â'r cynnydd sydyn ym mhrosiectau tai. Yn ogystal â chynlluniau ar gyfer ffoaduriaid sy'n rhoi pwysau ar brosiectau tai. Felly, teimla Naomi ei bod hi'n hanfodol fod asiantaethau'n cydweithio i adnabod anghenion wrth symud ymlaen.

3.1.2. Ategodd Carl Spiller o'r Polisi Atal Digartrefedd o fewn Llywodraeth Cymru y pwyntiau a godwyd gan Naomi, yn enwedig yng nghyswllt yr heriau sy'n wynebu asiantaethau ar hyn o bryd. Diolchodd Carl i'r Awdurdodau Lleol am eu gwaith yn ystod y pandemig drwy gefnogi 20,000 ers dechrau'r pandemig, sy'n orchest ryfeddol ond pwysleisiodd fod bron i 8,000 o bobl yn dal i fyw mewn llety dros dro yn sgil heriau'n ymwneud â dod o hyd i gartrefi parhaol hir dymor ar eu cyfer, lawer ohonynt ers dechrau'r pandemig.

Cyfeiriodd Carl at y ffaith mai nod Llywodraeth Cymru cyn y pandemig oedd trawsnewid y Gwasanaethau Digartrefedd yng Nghymru er mwyn sicrhau fod digartrefedd yn rywbeth prin, byr, na chaiff ei ailadrodd. Hynny yw, gwella'r gwasanaethau atal, cyflwyno gwasanaethau brys cyffredinol gyda'r bwriad o symud pobl i gartrefi parhaol yn gyflymach, ac i ddarparu atebion tymor hir i'r rhai â'r anghenion mwyaf cymhleth. Mae'r pandemig wedi prysuro'r angen i ymgymryd â'r fath drawsnewidiad sydyn o safbwynt ailgartrefu.

Mae Ailgartrefu Cyflym yn ymwneud yn sylfaenol â deall yr effaith negyddol y gall arhosiad hir ac weithiau anhrefnus mewn llety dros dro ei gael ar iechyd meddwl unigolyn ac unrhyw ddibyniaeth a all fod ganddynt. Felly, y bwriad yw symud pobl allano lety dros dro i gartrefi cyn gynted â phosibl yn unol ag amgylchiadau'r achos. Egwyddorion Llety yw'r sylfaen, a gydnabyddir yn

rhyngwladol ac yn llwyddiannus gyda chyfradd cynaliadwyedd o 90% yng Nghymru ar gyfer pobl â hanes o fethiannau tenantiaeth cyson. Serch hynny, pwysleisiodd Carl fod y pandemig wedi dangos rhai o'r heriau y bydd angen eu goresgyn, yn enwedig Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol ac atebion ar gyfer unigolion hynod gymhleth. Yn y cyswllt hwn, pwysleisiodd Carl y rôl y gall plismona cymesur ei gael o safbwynt cefnogi'r dull Ailgartrefu Cyflym.

Mae'r dull hwn yn enwedig yn wynebu her yng nghyswllt canfod llety ar gyfer unigolion sy'n dal i fod yn gaeth, yn enwedig yng ngoleuni Adran 8 o'r Ddeddf Camdefnyddio Cyffuriau lle y gall landlord gael ei erlyn os ydynt yn ymwybodol fod cyffuriau'n cael eu defnyddio yn eu heiddo. Felly, mae Carl yn awyddus i gael barn aelodau'r bwrdd o safbwynt cyflwyno llythyron cysur i landlordiaid, fel y gellir eu defnyddio gyda Phrosiectau Cartrefi'n Gyntaf er mwyn cynnig sicrwydd pellach i landlordiaid. Mae'r llythyr yn nodi os bydd unigolyn yn dilyn llwybr ymataliaeth, na fydd gorfodaeth yn cael ei weithredu. Eglurodd fod eithriadau lle mae unigolion yn ymwneud â gweithgareddau troseddol fel rhan o'u defnydd o gyffuriau. Holodd Carl am farn ar y mater.

Mae'r mater o wella cyfleodd llety i fenywod sy'n gadael y ddalfa wedi'i gynnwys yn y Glasbrint Cyfiawnder Menywod, sy'n rhan allweddol o'r gwaith hwn. Serch hynny, daeth i'r amlwg droeon wrth i fenywod adael y system Gyfiawnder Troseddol, bod rhwystrau ychwanegol wrth geisio dod o hyd i gartrefi tymor hir sy'n aml yn arwain at alw'r menywod yn ôl i'r carchar. Mae'r rhain yn cynnwys prinder tai addas a fforddiadwy, llety dros dro sy'n diwallu eu hanghenion a gwasanaethau sydd wedi'u hyfforddi i gefnogi rhywun sy'n cael ei ecsbloetio gan bartner. Yn ogystal, mae'r union daith o'r carchar yn ôl i ardaloedd eu hawdurdod lleol cartref hefyd yn arwain at fethiant i fynychu apwyntiadau sy'n ymwneud â'u llety.

Trafododd Carl hefyd gefnogi dulliau partneriaeth amlddisgyblaethol sy'n profi'n effeithiol cyn ac yn ystod y pandemig. Esboniodd fod Heddlu De Cymru wedi bod yn aelod hanfodol o'r tîm amlddisgyblaethol a ddefnyddiwyd yng Nghaerdydd sy'n cysylltu nifer o asiantaethau allweddol amrywiol sydd wedi cael cryn lwyddiant o ran cefnogi pobl ddigartref i gael mynediad at wasanaethau a sicrhau bod y lefelau digartrefedd yng Nghaerdydd yn parhau'n isel o gymharu â 3-4 blynedd yn ôl pan oedd tua hanner y bobl a oedd heb do uwch eu pennau yn cysgu allan yng Nghaerdydd.

Eglurodd Carl fod Llywodraeth Cymru'n credu fod hyn yn sgil y dulliau amlddisgyblaethol yma gyda'r Heddlu, Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcolol a'r Gwasanaethau Iechyd Sylfaenol sy'n cyflwyno Dull sy'n Seiledig ar Drawma wrth geisio sicrhau fod y rhai sy'n cysgu allan yn cael eu cysylltu â gwasanaethau yn hytrach nag ond gofyn iddynt symud. Eglurodd fod Llywodraeth Cymru'n awyddus i annog dulliau amlddisgyblaethol ledled Cymru a bod gan bob heddlu y potensial i chwarae rôl flaengar allweddol.

3.1.3. Cadarnhaodd y Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan o Heddlu De Cymru sylwadau Carl Spillers ynglŷn â'r dull amlddisgyblaethol. Eglurodd iddo

ymweld â Chanolfan Huggard a gweld y gofal o ansawdd uchel a'r sylw roedd unigolion yn eu derbyn yn y ganolfan gan nodi eu bod yn gweithio'n galed i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen.

Pwysleisiodd y Prif Gwnstabl Vaughan fod heddluoedd yn ymateb i gwynion yn ymnweud ag Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol, lle mae cyffuriau ac alcohol yn aml yn rhan o'r broblem. Eglurodd er bod yr heddlu'n ymyrryd, bod unigolion yn derbyn tri rhybudd ar wahân cyn bod unrhyw orfodaeth yn digwydd. Dywedodd y Prif Gwnstabl Vaughan mai'r adborth a dderbyniwyd gan Plismona yng Nghymru o safbwynt y Ddeddf Crwydraeth oedd mai fel y dewis olaf y dylid defnyddio gorfodaeth oherwydd bod angen help ar yr unigolion yma. Serch hynny, ceir eithriadau lle mae angen symud yn sydyn at orfodaeth am fod trais yn rhan o'r broblem ond pwysleisiodd nad dyma'r cam gweithredu cyntaf.

Cododd y Prif Gwnstabl Vaughan y pwynt hefyd, weithiau bod straeon anwir am yr heddlu a rhoddodd enghraifft o sefyllfa gyda Shelter Cymru'n ymwneud â throi allan anghyfreithlon. Pwysleisiodd y byddai Prif Gwnstabiad yng Nghymru yn awyddus i glywed yn uniongyrchol am yr enghreifftiau o droi allan anghyfreithlon honedig am nad dyma sail y berthynas y mae'r heddluoedd yng Nghymru eisiau ei gosod yn achos pobl fregus. Dywedodd y Prif Gwnstabl Vaughan fod Plismona yng Nghymru yn ymwneud â'r dull partneriaeth amlasiantaethol, ac wedi ymrwymo iddo, am nad ydynt eisiau gweithredu gorfodaeth.

Diolchodd Jane Hutt ASC i bawb am eu cyfraniadau gan wahodd sylwadau gan aelodau.

3.1.4. Pwysleisiodd y Comisiynydd Cuthbert bwysigrwydd y dull amlddisgyblaethol. Eglurodd mai ef yw un o ddau arweinydd Cymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ar fater plismona lleol a chynhaliwyd cyfarfod ar 22^{ain} Mehefin 2022 lle trafodwyd cysgu allan. Ychwanegodd fod cysgu allan yn gynwysiedig yn y Cynllun Curo Trosedd a bod amrywiaeth o gamau i heddluoedd eu hystyried. Cyfeiriodd y Comisiynydd Cuthbert hefyd mai'r consensws ledled Cymru a Lloegr yw fod gan blismona rôl i'w chwarae ond nid dyma'r prif gorff sy'n ymdrin â'r mater hwn, enwedig mewn achosion o ddibyniaeth a chamddefnydd o gyffuriau ac alcohol am fod angen mawr i gydweithio ag asiantaethau eraill.

3.1.5. Mynegodd Julie James ASC ei diolch i'r holl weithwyr Llinell Flaen sydd wedi gweithio'n ddiflino er mwyn sicrhau fod hyn yn gweithio a themlai fod hyn yn rhywbeth y dylid ymfalchïo'n fawr ynddo. Eglurodd ei bod hi'n ymwybodol o'r anawsterau gweithredol a amlinellwyd gan Naomi Alleyne ond dywedodd ei bod yn wych clywed fod partneriaid yn cefnogi'r polisi, yn enwedig partneriaid plismona am ei bod hi'n ymwybodol bod yr Heddluoedd a'r Comisiynwyr yn gytûn ar y mater.

Trafododd Julie James ASC y gwaith y mae'r heddlu wedi'i wneud gyda Shelter Cymru drwy ddarparu hyfforddiant ar gyfer Swyddogion Llinell Flaen i'w galluogi i wahaniaethu rhwng bregusrwydd unigolion cysylltiedig a gangiau troseddol. Estynnodd Julie James ASC ei diolch i Weithwyr Allgymorth am fod hyn wedi galluogi i unigolion nad oeddent yn ymgysylltu cynt gael cynnig gwasanaethau. Diolchodd Julie James ASC hefyd i Lynne Neagle ASC am ei gwasanaeth yng nghyswllt cefnogaeth iechyd meddwl am fod integreiddio'r gwasanaeth Allgymorth a Iechyd Meddwl wedi bod yn hanfodol yn hyn o beth.

Ategodd Jane Hutt ASC ei diolch i bawb am eu cyfraniadau heddiw. Ychwanegodd fod y cyflwyniad hwn yn amlygu'r ymateb amlasiantaethol sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr. Dywedodd Jane Hutt ASC fod hyn wedi egluro'r gwaith sy'n digwydd yng nghyswllt digartrefedd a'i bod hi'n falch iawn fod hyn wedi'i gyflwyno i Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru heddiw.

3.2. Cyfamod y Gwasanaethau Brys – Argymhelliad

Cyflwynodd Jane Hutt ASC yr eitem gan gyflwyno'r introduced Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan.

3.2.1. Dywedodd y PG Vaughan ei fod yn awyddus i ddiweddarau'r bwrdd am sefyllfa plismona o safbwynt Cyfamod y Gwasanaethau Brys a'i fod eisiau trafod lle gallai plismona ei oruchwylio'n gyflym oherwydd amllder Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru a'i fod yn awyddus i'r papur gael ei dderbyn. Eglurodd iddo gyflwyno'r Cyfamod Gwasanaethau Brys yng nghyfarfod diwethaf Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru a'i fod yn ymwybodol fod Llywodraeth y DU yn dal i weithio ar Gyfamod yr Heddlu sydd wedi'i gadw dan y gyfraith gan y Ddeddf Heddlu, Trosedd Dedfrydu a'r Llysoedd, felly bod angen i'r gwaith a gyflawnir yma ategu hynny. Dywedodd y PG Vaughan fod cyfle yng Nghymru i ystyried y gwasanaethau brys yn ehangach a'r cyfraniad unigryw a wneir ganddynt i gadw'r wlad yn ddiogel ac yn iach.

Dyweodd y PG Vaughan fod y papur yn tanlinellu ambell wers o Gyfamod y Lluoedd Arfog sydd wedi bod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu'r Cyfamod Gwasanaethau Brys. Eglurodd nad amcan y cyfamod yw darparu triniaeth ffafriol i'r gwasanaethau brys ond yn hytrach i gydnabod y cyfraniad a wneir gan y gwasanaethau brys a sicrhau nad ydynt yn wynebu anfantais yn y gwaith o ddiodef o anawsterau iechyd meddwl.

Eglurodd y Prif Gwnstabl Vaughan fod angen gwaith pellach yng nghyswllt pwy y mae'r cyfamond yn ymwneud â nhw yn ogystal â'r goblygiadau i ddarparwyr gwasanaeth yng Nghymru, ond pwysleisiodd mor belled, fod yr holl drafodaethau ar y mater wedi bod yn gadarnhaol a bod yr holl wasanaethau wedi bod yn gefnogol.

Eglurodd PG Vaughan fod plismona'n awyddus i oruchwylio'r cyfamod yn y Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd cyn dod nôl ag ef at Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru. Ychwanegodd Prif Gwnstabl Vaughan ei fod yn credu mai dyma'r cyfle i Gymru gydnabod y cyfraniad unigryw hwnnw.

3.2.2. Diolchodd Jane Hutt ASC y Prif Gwnstabl Vaughan am ei gyfraniad gan egluro fod y papur a gyflwynwyd yn amlinellu'r ffordd ymlaen yn nhermau'r Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd a theimlai fod hyn yn gam cadarnhaol. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r syniad hwn am Gyfamod Gwasanaethau Brys ar y dechrau fel hyn ond eglurodd y byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried y manylion a'r goblygiadau yn fanwl.

Eglurodd Jane Hutt y dylai'r cyfamod ganolbwyntio ar fynediad cyfartal i wasanaethau a sicrhau nad yw aelodau o staff, cyn-staff a'u teuluoedd dan anfantais felly cytunodd â'r PG Vaughan nad yw y tu hwnt i'r ddarpariaeth heblaw fod tystiolaeth o anfantais systemig i grwpiau. Serch hynny, cododd Jane Hutt y pwynt fod cydweithwyr yn y GIG yn nodi y dylai'r cyfamod gynnwys staff y GIG yn hytrach na'r gwasanaeth ambiwlans yn unig. Cytunodd Jane Hutt â'i gynllun i drafod y mater yn y Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd ac arodd yn ôl i Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru.

3.3. Camddefnyddio sylweddau

Cyflwynodd Jane Hutt ASC y pwnc ac elguro mai'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol David Thorne fyddai'n cyflwyno'r papur oedd wedi'i baratoi gan yr Heddlu. Croesawodd Lynne Neagle ASC, Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Lles, i'r cyfarfod gan fod ei phortffolio'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau ac iechyd troseddwy'r hefyd.

3.3.1. Cyflwynodd Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne yr eitem drwy egluro fod y papur wedi'i gynnwys gyda'r agenda a amlinellwyd gan strategaeth camddefnyddio sylweddau Plismona yng Nghymru. Dywedodd fod nifer o gwestiynau'n gynnwysedig yn y papur.

Dechreuodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne drwy gydnabod y gwaith a gyflawnwyd yng Nghymru yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill, yn cynnwys darparwyr gwasanaeth, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gorfodi'r Gyfraith a phartneriaid eraill. Ychwanegodd fod Cymru'n eithaf pell ar y blaen o safbwynt yr agenda lleihau niwed a chyfeiriodd at y Strategaeth Camdrin Sylweddau 2008-2018 a'r Cynllun Cyflwyno Camdrin Sylweddau 2019-22 dilynol. Serch hynny, dywedodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne fod plismona a gorfodi'r gyfraith wedi dod i sylweddoli fod marwolaethau yn sgil cyffuriau yn dal i godi a bod y niwed a achosir yn sgil bod yn gaeth i gyffuriau, megis troseddau meddiannu yn parhau.

O ganlyniad i hyn, cred Plismona yng Nghymru fod angen newid yn y modd y mae camddefnyddio sylweddau'n cael ei hystyried a'r agwedd at fynd i'r afael â hynny. Felly, mae'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne yn awyddus i ganolbwyntio ar yr amcanion y mae Plismona yng Nghymru'n dymuno eu gweld ac addasu eu dulliau gweithredu ar sail hynny. O ganlyniad i hyn dywedodd fod heddluoedd yng Nghymru yn annog agwedd radical tuag at

ymdrin â'r mater anodd hwn. Eglurodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne hefyd fod Cynllun Cyflwyno Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru i'w adnewyddu o 2023 ymlaen a theimla fod hyn yn gyfle i gydweithio i adolygu cynnwys y cynllun ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

Eglurodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne yn fyr fod hanfod y strategaeth camddefnyddio sylweddau ar gyfer Plismona a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd wedi rhannu'n dri llinyn: atal pobl rhag mynd yn gaeth i sylweddau anghyfreithlon, ceisio torri cylch dibyniaeth yn achos pobl sydd eisoes yn gaeth i sylweddau anghyfreithlon a mynd i'r afael â chyflenwi a grwpiau troseddol.

Nodod y PGC Thorne chwe phwynt allweddol (yn seiliedig ar y Papur Plismona) a wyntyllwyd gan Lywodraeth Cymru. Dyma'r pwyntiau:

1. Mae'r cyntaf yn ymwneud â chyllid, yn enwedig y cyllid a ddaw o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru a'r cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru at Fyrddau Cynllunio Ardal. Eglurodd y PGC Thorne cyn y cyfarfod hwn ac fel y cytunwyd gan y Bwrdd Plismona fod llythyr wedi'i anfon gan Lywodraeth Cymru, a helpodd i fynd i'r afael â rhai materion yn ymwneud â chyllid ond teimlai fod angen gwneud gwaith pellach yn y maes hwn o hyd.
2. Eglurodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne ei fod yn teimlo fod ambell anghysondeb yn y ffordd roedd Byrddau Cynllunio Ardal yn gweithredu. Dywedodd fod yr Heddlu'n edrych am ddull cyson tuag at gamddefnyddio sylweddau yn achos pob Bwrdd Cynllunio Ardal ledled Cymru. Felly, y cais yw fod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Plismona yng Nghymru i greu memorandwm o ddealltwriaeth i sicrhau cysondeb yn y cyswllt hwn.
3. Mae'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne yn gofyn am well rhannu data rhwng asiantaethau cysylltiedig er mwyn rhannu gwybodaeth mewn achosion o orddosau cyffuriau sydd bron yn farwol.
4. Trafododd y PGC Thorne opsiynau triniaeth, gan egluro fod llawer o waith yn digwydd yng Nghymru ond ei fod eisiau pwysleisio fod rhai dulliau radical yn cael eu datblygu megis Triniaeth gyda Chymorth Diamorffin, Therapi Amnewid Opioid sy'n cynnwys Buvidal fel enghraifft. Eglurodd y PGC Thorne ei fod yn ymwybodol o'r gwaith da a wnaed gan Lywodraeth Cymru wrth gyflwyno Buvidal fel Therapi Amnewid Opioid a chlustnodi cyllid ar gyfer presgripsiynau Buvidal. Serch hynny, mae Plismona yng Nghymru yn argymhell fod hyn yn dod yn fwy cyffredin ac yn gofyn am gefnogaeth barhaus gan Lywodraeth Cymru a dylanwadu ar asiantaethau eraill.
5. Codwyd mater Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne am fod angen cefnogaeth a buddsoddiad gan

Llywodraeth Cymru. Ceir rhai awgrymiadau mewn Papur Gwyn gan Lywodraeth y DU ar y mater. Eglurodd fod rhywfaint o waith ymchwil ar gael yn ymwneud â defnyddwyr cyffuriau problematig sy'n dangos y gall agwedd fwy cosbol at daclo camddefnyddio sylweddau fod yn wrthgynhyrchiol ac y gallai cefnogaeth Llywodraeth Cymru helpu heddluoedd i gefnogi'r dystiolaeth.

6. Cododd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne fater llywodraethiant hefyd. Eglurodd ei fod yn Gyd-gadeirydd y Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Gwenwyno Cyffuriau gyda Llywodraeth Cymru a bod hwn yn fforwm ardderchog ar gyfer trafod llawer o'r fath wybodaeth. Crybwyllodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne fod yr Heddluoedd a'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd wedi creu Grŵp Prif Swyddogion Cymru Gyfan ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau er mwyn sicrhau fod llywodraethiant Plismona yng Nghymru yn addas er mwyn dylanwadu ar y bwrdd. Felly, dywedodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne fod cefnogaeth Llywodraeth Cymru wrth ddylanwadu ar asiantaethau eraill megis y Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol i'w hannog i sicrhau fod eu llywodraethiant yn iawn i alluogi trafod materion mewn modd addas yn y Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Gwenwyno Cyffuriau yn allweddol.

3.3.2. Diolchodd Jane Hutt i'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne am ei gyfraniad a gwahoddodd y Gweinidog cyfrifol, Lynne Neagle, i roi sylwadau.

3.3.3. Diolchodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Lles i'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne am gyflwyno'r papur. Dywedodd ei bod hi'n dda fod cydnabyddiaeth fod Cymru mewn sefyllfa well yng nghyswllt lleihau niwed, yr agwedd at iechyd cyhoeddus, a chamddefnyddio sylweddau na Llywodraeth y DU ac mai dyma fu ein dull gweithredu ers cyfnod maith. Ymatebodd i gynnig y PGC Thorne o gymorth wrth adnewyddu'r Cynllun Cyflwyno Camddefnyddio Sylweddau 2019-22 gan gadarnhau cynnig blaenorol Llywodraeth Cymru i drafod a gweithio'n agos gyda'r heddlu ar y mater.

Trafododd y Dirprwy Weinidog geisiadau'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne drwy egluro fod Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o bryderon Plismona yng Nghymru o safbwynt cyllid a drafodwyd yng nghyfarfod diwethaf Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio cadarnhau faint o gyllid ychwanegol fyddai ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer maes camddefnyddio sylweddau mewn llythyr dyddiedig 13^{eg} Mehefin 2022. Eglurodd fod cynnydd uwch nag erioed wedi bod eleni i bron £64m ac hyd yn oed gyda'r arian ychwanegol a gyhoeddwyd yn Lloegr o ganlyniad i arolwg y Fonesig Carol Black, mae Cymru'n gwario mwy y pen na Lloegr. Yn ychwanegol at hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau cyllid yn lle'r hyn a roddwyd drwy gyfrwng y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd i gadw unigolion mewn gwaith drwy ddarparu cymorth cyflogaeth. Eglurodd y byddai'r prosiectau hynny wedi eu colli wedi i'r cyllid ddirwyn i ben ond bod Llywodraeth



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD Gogledd Cymru
OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES



South Wales
Police and Crime Commissioner
Comisiynydd yr Heddlu a Throeddu
De Cymru



Cymru wedi buddsoddi arian am eu bod yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi unigolion i aros mewn gwaith.

Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog hefyd at y mater yn ymwneud â'r Byrddau Cynllunio Ardal. Dywedodd fod pob Bwrdd Cynllunio Ardal yn gweithredu o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd ei bod yn anorfod y byddai rhywfaint o wahaniaethau o safbwynt Byrddau Cynllunio Ardal yng Nghymru am mai eu rôl yw ymateb i ofynion lleol ond y byddai'n croesawu trafodaethau gyda swyddogion er mwyn trafod sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi hyn yn genedlaethol a gwneud y gwelliannau angenrheidiol.

Eglurodd y Dirprwy Weinidog ei bod wedi gofyn i'r Heddlu, y Comisiynwyr Heddlu a Throedd a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) sy'n rhan o'r Cynllun Cyflwyno Camddefnyddio Sylweddau i gryfhau eu gweithredoedd ar y cyd. Ychwanegodd unwaith y byddai'r cynllun wedi'i gwblhau, byddai Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa well i ystyried pa gamau sy'n angenrheidiol yn cynnwys memorandwm dealltwriaeth, pe bai angen.

Trafododd y Dirprwy Weinidog fater rhannu data hefyd, gan ddweud ei bod yn sylweddoli pwysigrwydd hyn, yn enwedig i sicrhau y gellid dysgu oddi wrth orddosau nad oeddent yn farwol. Mynegodd ei diolch i'r PGC Thorne am ei waith fel cydgadeirydd ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru o'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Gwenwyno Cyffuriau. Eglurodd fod y Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Gwenwyno Cyffuriau wedi gofyn i Swyddogion weithio'n agos gyda'r heddlu a phartneriaid eraill ar y mater hwn yn ogytal â gweithio gydag Arweinwyr Lleihau Niwed a Chydlynwyr Adolygu Achosion ledled Cymru er mwyn sicrhau fod marwolaethau yn sgil cyffuriau'n cael eu hadolygu mewn amser real.

Ymatebodd Lynne Neagle ASC drwy holi am Driniaeth Cymorth Heroin (HAT). Eglourodd fod trafodaethau wedi bod am y mater hwn ers cryn amser a bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n helaeth mewn Buvidal gyda swm o £9m dros y dair blynedd nesaf gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad mewn Buvidal i £12.5m. Felly dywedodd mad yw hi mewn sefyllfa i wneud unrhyw ymrwymiadau o safbwynt buddsoddiadau nes i hyn gael ei gwblhau. Serch hynny, dywedodd Lynne Neagle y gallai Byrddau Cynllunio Ardal ystyried hyn, yn unol â'r llythyr a anfonwyd at Gadeiryddion y Bwrdd Cynllunio Ardal ym mis Mawrth 2020, a'i bod yn fodlon i'r Heddlu barhau i drafod Triniaethau Cymorth Heroin gyda'r APB.

Eglurodd y Dirprwy Weinidog, Iechyd Meddwl a Lles nad yw Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys yn faterion syml am nad yw Cyfiawnder Troseddol wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru ond dywedodd ei bod yn awyddus i ystyried bob opsiwn i ddargyfeirio pobl ifanc allan o'r System Gyfiawnder Troseddol. Awgrymodd ystyried y mater ar y cyd gan gynnwys Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a'r Heddlu.

O safbwynt llywodraethiant, croesawodd y Dirprwy Weinidog y cydweithio sy'n dal i barhau megis y Bwrdd Atal Gwenwyno drwy Gyffuriau ond dywedodd ei bod yn hapus i gynnal trafodaethau'n ymwneud â sut i gryfhau hyn, i ystyried pryderon sydd



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER



SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDDU Gogledd Cymru
OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES



South Wales
Police and Crime Commissioner
Comisiynydd yr Heddlu a Throeddu
De Cymru



gan blismona gydag asiantaethau eraill. Pwysleisiodd fod yr adolygiad o'r Cynllun Cyflwyno Camddefnyddio Sylweddau'n cynnig cyfle i drafod y materion yma a sicrhau fod y llywodraethiant yn gywir wrth symud ymlaen.

3.3.4. Dywedodd y Comisiynydd Michael ei fod yn canmol y ffaith fod y penderfyniad hwn yn cael ei wneud a'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn dilyn dulliau lechyd Cyhoeddus o safbwynt camddefnyddio sylweddau.

Roedd y Comisiynydd Michael yn awyddus i nodi fod cryn dipyn o nawdd ar gyfer gwasanaethau triniaeth yn dod oddi wrth y gwasanaeth plismona a phrawf. Eglurodd fod cyfrifoldeb ar y cyd i ddarparu gwasanaethau a rhoddodd enghraifft Dyfodol yn Abertawe sydd wedi ehangu i sicrhau ei fod yn wasanaeth di-dor o'r ddaifa i mewn i'r carchar ac hyd at y gwasanaeth prawf yn dilyn rhyddhau'r unigolion o'r carchar.

Pwysleisiodd y Comisiynydd Michael fod momentwm wedi'i golli yn dilyn cyflwyniad y PG Vaughan o safbwynt pryderon Plismona yng Nghymru yn ymwneud â materion megis marwolaethau oherwydd cyffuriau gydag Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot yn ymddangos fel y dangosydd unigol mwyaf amlwg drwy fod yn ail a thrydydd i Blackpool drwy'r DU gyfan o safbwynt y lefelau gwaethaf o farwolaethau cyffuriau ac nid yw'r broblem hon wedi'i datrys.

Eglurodd y Comisiynydd Michael fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud, er enghraifft, roedd lechyd Cyhoeddus wedi gweithio gydag Angharad Metcalfe yn ei swyddfa ef i ddatblygu dulliau cynghreiriol a oedd yn llwyddiannus. Serch hynny, yn dilyn bynyddoedd o waith, roedd y Bwrdd lechyd wedi penderfynu dilyn trywydd gwahanol, felly daeth y gwaith hwnnw i ben.

Ychwanegodd y Comisiynydd Michael ei fod yn cytuno â cheisiadau papur y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne ond ei fod yn teimlo'r angen i fod yn fwy uchelgeisiol. Cyfeiriodd hefyd at yr ymdeimlad oedd ganddo nad oedd system y Bwrdd Cynllunio Ardal yn gweithio o'i brofiad ei hun ac nad yw'n credu fod gan y Byrddau Cynllunio Ardal adnoddau na chyffredinoldeb gallu i gyflawni'r hyn sydd ei angen.

3.3.5. Dywedodd y Comisiynydd Llywelyn ei fod yn cytuno â'r Comisiynydd Michael o safbwynt yr ymdrech i weithio mewn partneriaeth adeiladol golegol sy'n bodoli gan ychwanegu fod Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru wedi mynd â hyn i'r lefel nesaf a'i fod yn falch iawn o hynny. Serch hynny, mynegodd rai pryderon am ymateb y Dirprwy Weinidog i bapur y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne, yn bennaf am ei fod yn teimlo fod Cymru mewn gwell sefyllfa na Lloegr ar hyn o bryd. Serch hynny, mae iaith a thôn iaith strategaeth Llywodraeth y DU ychydig yn fwy cosbol ei natur felly mae perygl os na fydd Cymru ar flaen y gad gyda'r gwaith ar gamddefnyddio sylweddau, y bydd yn cael ei hamsugno gan Strategaeth Llywodraeth y DU gan arwain at blismona gweithredol yn mabwysiadu deinameg gwahanol.

Cyfeiriodd y Comisiynydd Llywelyn at sylwadau'r Dirprwy Weinidog o safbwynt buddsoddiad sylweddol Llywodraeth Cymru yn y defnydd o Buvidal. Cydnabu fod hyn yn wir ond pwysleisiodd fod Buvidal yn cael ei hyrwyddo fel bod yn hynod llwyddiannus yng nghyswllt lleihau marwolaethau'n ymwneud â chyffurffiau. Serch

hynny, nid yw Cymru ar frig y rhestr o safbwynt marwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau am nad ydynt wedi llwyddo i gael effaith sylweddol ar hyn. Felly, gobaith y Comisiynydd Llewelyn yw gallu mynd i'r afael â'r pwynt yma ymhellach.

3.3.6. Crybwyllodd y Prif Gwnstabl Kelly ei bod wedi gweld llawer gormod o farwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau yn ystod ei gyrfa gan dweud fod plismona'n gweld cenhedlaeth arall o bobl ifanc yng Nghymru y gallai eu marwolaethau fod wedi eu hosgoi. Roedd yn awyddus i droi at rai o bwyntiau'r Dirprwy Weinidog. Teimlai'r Prif Gwnstabl Kelly fod potensial i gydweithio ar Gynllun Cyflwyno Camddefnyddio Sylweddau'r dyfodol. Dywedodd y Prif Gwnstabl Kelly ei bod yn teimlo fod arian y Bwrdd Cynllunio Ardal yn mynd tuag at adeiladau yn hytrach na gwasanaethau sydd wir yn ymestyn allan i'r gymuned a darparu ymyrraeth gynnar a allai wir helpu. Eglurodd y Prif Gwnstabl Kelly y byddai plismona'n gwerthfawrogi'r cyfle i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y mater.

Ychwanegodd y Prif Gwnstabl Kelly fod llawer iawn o arian cyhoeddus yn mynd tuag at wasanaethau camddefnyddio sylweddau ond holodd os oeddem yn ymwybodol o ba wasanaethau sy'n gweithio ac a ydym yn deall yr effaith ac os yw arfer dda'n cael ei rannu'n gyflym ac mewn modd digon cadarn er mwyn gwneud gwahaniaeth, megis gweithio'n arloesol fel yr awgrymodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Thorne a'i rannu ledled Cymru.

3.3.7. Siaradodd Joanne Hopkins ar ran Tracey Cooper, gan ddatgan ei bod hi wedi ymrwmo i edrych ar y modd y gall lechyd Cyhoeddus gymryd camau ymlaen o safbwynt eu dulliau gweithredu a sut i adfywio'r gwaith yma wrth symud ymlaen.

Trafododd Joanne Hopkins hefyd y gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y Hwb Cymorth ACE ar y cyd â Llywodraeth Cymru a sefydliadau fel rhan o'r Byrddau Cynllunio Ardal er mwyn edrych ar y Dull Seiliedig ar Drawma. Eglurodd fod hyn yn seiliedig ar y sefydliad a'r modd y maent yn gweithio er mwyn deall profiadau'r bobl sy'n cael eu cefnogi ganddynt. Serch hynny, crybwyllodd fod cyfle i weithio ar y cyd am eu bod yn edrych ar ffyrdd mwy arloesol o weithio.

Dywedodd Joanne Hopkins fod lechyd Cyhoeddus yn croesawu'r penderfyniad i werthuso'r dulliau gweithredu'n ymwneud â Buvidal am ei bod yn awyddus i sicrhau mynd i'r afael ag achos sylfaenol camddefnyddio sylweddau

3.3.8. Roedd y Comisiynydd Cuthbert eisiau adleisio datganiad y Prif Gwnstabl Kelly, yn enwedig felly'r cyfeiriad at y ffaith fod plismona'n awyddus i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru. Teimlai mai dyma'r ffordd ymlaen wedi iddo fynychu Uwch-Gynhadledd Cyffuriau'r DU a drefnwyd gan y Gweinidog Trosedd a Phlismona, Kit Malthouse ac eglurodd fod difrifoldeb mawr o safbwynt mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. Mae'r Comisiynydd Cuthbert yn awyddus i barhau â'r trafodaethau ar y pwnc hwn er mwyn sicrhau fod cynnydd yn cael ei wneud ar y cyd.

3.3.9. Ymatebod y Dirprwy Weinidog drwy ddweud fod Llywodraeth Cymru'n parhau i fuddsoddi symiau mawr o arian i'r agenda yma a'i bod eisiau parhau â'r



trafodaethau gyda'r Heddlu wrth i'r Cynllun Cyflwyno Camddefnyddio Sylweddau gael ei ddatblygu.

Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog hefyd at sylwadau'r Prif Gwnstabl Kelly yn ymwneud a'r cyllid a roddwyd i adeiladau gan ddweud nad dyna'r achos am fod dyraniad cynnil o arian a dywedodd fod y symiau mwyaf o arian yn mynd at gyllid refeniw. Cyfeiriodd hefyd at bwynt y Comisiynydd Michael drwy ddweud y byddai'n hapus i barhau â'r trafodaethau'n ymwneud â'r Byrddau Cynllunio Ardal. Cytunodd y Dirprwy Weinidog hefyd â sylwadau'r Comisiynydd Michael am addysg gan sôn fod Llywodraeth Cymru'n ariannu Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru ar y cyd â Plismona yng Nghymru. Nodwyd fod gwaith yn parhau ar y cwricwlwm newydd sy'n rhoi cyfle i ymyrryd yn gynnar gyda phlant a phobl ifanc.

Gorffennodd y Dirprwy Weinidog drwy ddweud ei bod yn hapus i gynnal trafodaethau pellach ar y materion yma gyda'r heddlu.

3.3.10. Holodd y Comisiynydd Llywelyn a oedd amserlen ar gyfer pryd roedd y strategaeth newydd yn debygol o gael ei chyhoeddi gan grybwyll er bod trafodaethau pellach yn bwysig, ei fod yn teimlo'r angen i symud yn gyflym yn y cyswllt hwn. Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog fod cynnydd yn digwydd o safbwynt y mater hwn ac y byddai gwaith ymgysylltu'n digwydd eleni.

Derbyniodd y Comisiynydd Llywelyn hefyd yr angen am werthusiad yng nghyswllt Buvidal ond nid oedd am weld hyn fel rhwystr ar gyfer dulliau arloesol pellach o safbwynt buddsoddiad. Holodd a fyddai Llywodraeth Cymru'n cefnogi Heddluoedd a fyddai'n cyflwyno Triniaeth Cymorth Diamorphine, am y gwelwyd hynny yn ardaloedd Cleveland a Gorllewin Canolbarth Lloegr. Eglurodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n ymateb yn ysgrifenedig i'r CHTH ynglŷn â'r mater hwn.

Diolchodd ASC aelodau'r bwrdd am eu cyflwyniadau gan ddiolch ymhellach i eraill am eu cyfraniadau.

4. Unrhyw faterion i'w trafod yn uwch yn sgil y cyfarfod Plismona yng Nghymru

Holodd Jane Hutt y Comisiynydd Llywelyn fel Cadeirydd Plismona yng Nghymru a oedd angen dyrchafu unrhyw faterion i'w trafod gan Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru.

Dywedodd y Comisiynydd Llywelyn nad oedd angen codi unrhyw faterion heddiw. Ychwanegodd y byddai'r Gadair yn cael ei throsglwyddo i'r Comisiynydd Cuthbert ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Daeth Jane Hutt â'r cyfarfod i ben gan ddiolch i bawb am fynychu, ac ychwanegu y byddai'n edrych ymlaen at weld pawb wyneb yn wyneb yng nghyfarfod mis Medi. Estynnodd Jane Hutt ei diolch hefyd i Mick Antoniw am aros cyhyd ag y gallai ac i Lynne Neagle am fynychu'r cyfarfod llawn.



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER



SWYDDYDA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDDU Gogledd Cymru
OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES



South Wales
Police and Crime Commissioner
Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
De Cymru



Dywedodd Jane Hutt fod hwn yn gyfrifoldeb traws-lywodraethol o safbwynt y bartneriaeth blismona y cred sy'n cael ei gyfleu'n glir iawn yn y ddogfen Cyfiawner i Gymru.

5. Diweddariadau gan bartneriaid drwy eithriad

Dim wedi eu datgan, diweddariadau ysgrifenedig wedi'u cynnwys i'w nodi.

6. Unrhyw Fater Arall

Trafodwyd cyfarfod nesaf Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru a mynegwyd rhywfaint o ddiddordeb mewn cynnal y cyfarfod wyneb yn wyneb. Crybwyllodd Jane Hutt y posibilrwydd o gynnal cyfarfod ar ffurf hybrid, a chytunodd y Comisiynydd Cuthbert y byddai cyfarfod hybrid yn ddelfrydol fel y modd o hwyluso'r presenoldeb gorau.

Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Dydd Iau 22^{ain} Medi 2022 am 3pm